Cymdeithas
**Cyfieithwyr**
**Cymru**

# Llawlyfr

# Diwrnod y Prawf CAP:

## y Prawf CAP i'r Saesneg a'r Prawf CAP i'r Gymraeg

**Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**
Intec
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FG

01248 371839

swyddfa@cyfieithwyr.cymru

**www.cyfieithwyr.cymru**

**@cyfieithwyr**

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Cynnwys | 2 |
| 1. | Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru | 3 |
| 2. | Aelodaeth CAP | 4 |
| 3. | Y Prawf CAP | 5 |
| 4. | Cofrestru a thalu | 7 |
| 5. | Trefn y Prawf CAP | 9 |
| 6. | Beth sy'n digwydd ar ôl Diwrnod y Prawf CAP | 11 |
| 7. | Canllawiau asesu'r Prawf CAP | 14 |
| 8. | Aelodaeth o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru | 16 |


### Nod a bwriad y llawlyfr hwn

Bwriad y llawlyfr hwn yw cyflwyno'r holl wybodaeth am Ddiwrnod y Prawf CAP, pan gynhelir Prawf CAP i'r Saesneg a Phrawf CAP i'r Gymraeg yn rhithwir trwy Zoom. Mae'r wybodaeth yn y llawlyfr hwn yn berthnasol i'r ddau Brawf CAP.

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys yr atebion i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau am y ddau Brawf CAP gan gynnwys y safon sy'n ddisgwyliedig gan ymgeiswyr, cofrestru, trefniadau Diwrnod y Prawf CAP, asesu'r ceisiadau, cyhoeddi'r canlyniadau, a'r hyn sy'n digwydd wedyn. Rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gofrestru.

**Gweinyddir Diwrnod y Prawf CAP gan Reolwr Gweinyddol y Gymdeithas. Dylid cyfeirio pob ymholiad i swyddfa@cyfieithwyr.cymru.**

*Roedd y wybodaeth yn gywir adeg cyhoeddi'r llawlyfr hwn ar 27 Tachwedd 2025.*

# 1. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol. Hi yw'r unig gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg i/o'r Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd, a bu'n allweddol wrth greu cymuned o gyfieithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: aelodaeth Gyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP). Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod ohoni. Dim ond unigolion all fod yn aelodau o'r Gymdeithas er bod categori/au eraill.

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg i/o'r Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain. Mae cyfieithwyr yn ganolog i gynorthwyo cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr ac yn creu pont rhwng y carfanau.

Ers ei sefydlu yn 1976 mae'r Gymdeithas wedi:

- cynnal, datblygu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg trwy osod y safonau cyfieithu proffesiynol hynny, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

- sicrhau bod y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a'i fod yn gallu ymateb yn rhagweithiol i anghenion y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, bwriad y Gymdeithas yw cynrychioli cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg i/o'r Saesneg, gostwng nifer yr achosion lle gall unrhyw un ei (g)alw ei hun yn gyfieithydd heb gymhwyster proffesiynol priodol, a gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau cyfieithu a rhoi'r sicrwydd iddynt y gallant ddisgwyl gwaith o safon trwy ddefnyddio aelod cymwysedig.

Trwy roi grant blynyddol i'r Gymdeithas ers 1997 – yn uniongyrchol ers 2016 a thrwy law Comisiynydd y Gymraeg (2012–16) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hynny – mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi dros £1.9 miliwn yng ngwaith y Gymdeithas i ddatblygu, hyrwyddo a chryfhau'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg.

I gael gwybod rhagor am weithgareddau a gwasanaethau'r Gymdeithas, ewch i'r wefan https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/.

**Caiff y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.**

## 2. Aelodaeth CAP

Mae safon Aelodaeth CAP yn cyfateb i safon aelodaeth gwbl broffesiynol lle gall yr aelod gyfieithu'n rhugl ac yn gywir o'r Gymraeg i'r Saesneg ac/neu o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd sy'n amrywio o'r tra ffurfiol i'r anffurfiol iawn a hynny heb oruchwyliaeth. Disgwylir iddo feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith a gallu ieithyddol rhugl, llyfn ac idiomatig.

Felly, mae i aelodaeth CAP y Gymdeithas yr un statws ag aelodaeth Gyflawn i'r Cyfieithwyr testun. Ni chynigir aelodaeth CAP sylfaenol oherwydd yr angen i wrandawyr fod yn gwbl ffyddiog o allu'r cyfieithydd i gyfieithu'n gyflawn ac yn gywir, heb yr angen i fod o dan oruchwyliaeth gan gyfieithydd ar y pryd profiadol.

Mae dau gategori o Aelodaeth CAP, i'r Saesneg ac i'r Gymraeg. Dyfernir aelodaeth yn unol â'r iaith darged y mae'r ymgeisydd yn llwyddo ynddi. Nodir y lefel(au) o aelodaeth yn glir ar y dystysgrif aelodaeth ac yng Nghofnod Aelodaeth yr aelod ar wefan y Gymdeithas.

Dim ond drwy lwyddo ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn Aelod CAP.

### Safon ddisgwyliedig yr ymgeiswyr

Yn achos y ddau Brawf CAP yr hyn sy'n bwysig yw y dylai ymgeiswyr gyfleu hyder wrth arfer y grefft o gyfieithu ar y pryd ac y dylent deimlo'n ffyddiog eu bod wedi cyrraedd safon Aelodaeth CAP i ennyn hyder yn y gwrandawr mewn sefyllfaoedd o bob math.

Cyn ystyried sefyll y Prawf CAP i'r Saesneg, argymhellwn y dylai ymgeiswyr feddu ar o leiaf 200 awr o brofiad cyfieithu ar y pryd. Oherwydd bod amgylchiadau gwaith cyfieithwyr yn wahanol a bydd y gofynion arnynt i gyfieithu ar y pryd yn amrywio'n helaeth, nid ydym am bennu cyfnod penodol ar gyfer cyflawni hyn. Gallai cyfieithydd sy'n cyfieithu ar y pryd yn gyson mewn cyfarfodydd gyrraedd y nifer hwn o oriau mewn ychydig o fisoedd, ond gallai gymryd yn hirach i rywun nad yw'n cyfieithu ar y pryd mor aml â hynny neu lle mae llai o alw am gyfieithu ar y pryd yn y cyfarfodydd y mae'n bresennol ynddynt. Canllaw yn unig yw hwn, wrth gwrs, ac ymddiriedir yn yr ymgeisydd i farnu a yw'n barod i sefyll y prawf a thalu'r ffi briodol.

Cyn ystyried sefyll y Prawf CAP i'r Gymraeg, argymhellwn y dylai ymgeiswyr feddu ar o leiaf 200 awr o brofiad cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg. Yr hyn sy'n bwysig yn yr achos hwn yw'r profiad sydd gan ymgeisydd o gyfieithu ar y pryd. Am fod y galw yn sylweddol is yn hyn o beth, unwaith eto dibynnir ar yr ymgeisydd i bennu a yw'n barod i sefyll y prawf hwn.

### Gwybodaeth ddefnyddiol

Fel rhan o'u paratoadau i sefyll Prawf CAP, dylai ymgeiswyr ddarllen yr Adroddiadau Cyffredinol a luniwyd yn dilyn y Profion CAP a fu sydd i'w cael ar wefan y Gymdeithas, https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/ymaelodi/adroddiadau-cyffredinol-y-prawf-cap.

Mae darnau ymarfer hefyd i'w cael ar wefan 'Llwyfan Cyfieithu ar y Pryd' Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, https://cyfieithuarypryd.cymru/.

# 3. Y Prawf CAP

## 3.1 Nod y Prawf CAP

Diben y Prawf CAP yw asesu gallu ymgeiswyr i gyfieithu ar y pryd yn rhugl a llyfn, a chyfleu neges y gwreiddiol yn gywir.

Nod y Prawf CAP, p'un ai yw i'r Saesneg neu i'r Gymraeg, yw efelychu, orau y gellir, sefyllfa lle bydd gofyn cyfieithu ar y pryd. Dylai'r ymgeisydd ymgymryd â'r dasg yn y Prawf CAP fel petai'n mynd ati i gyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod go iawn.

Cynhelir y Prawf CAP yn rhithwir gan ddefnyddio Zoom. Bydd yr ochr dechnegol dan reolaeth peiriannydd sain proffesiynol o CTV Sound Studios, Caerdydd, a fydd yn gyfrifol am recordio'r Prawf CAP ac am reoli'r sain. Yn dilyn blynyddoedd lawer o reoli'r ochr dechnegol ar gyfer profion CAP, mae'r peiriannydd yn gwybod yn union beth i chwilio a gwrando amdano o ran diffygion llais/techneg mic er mwyn cadarnhau bod y prawf yn gallu mynd rhagddo'n ddidrafferth.

Hoffem bwysleisio mai defnyddio'r platfform hwn fel dull o gynnal y Prawf CAP a wnawn. Bydd caniatáu i ymgeiswyr sefyll Prawf CAP mewn man o'u dewis hwy, e.e. yn eu cartref neu swyddfa, yn gwneud y Prawf CAP yn fwy hygyrch nag erioed. Awgrymir bod ymgeiswyr yn ymgyfarwyddo â Zoom ac yn gwirio'u sain, eu cysylltedd ac ansawdd eu meicroffon.

## 3.2 Y Prawf CAP

Cynhelir y Prawf CAP o dan oruchwyliaeth y Gymdeithas a thechnegydd proffesiynol, a hynny o dan amodau arholiad. Os caiff ymgeisydd anhawster wrth gyfieithu'r darnau, ni ddylai ddisgwyl cael ailddechrau'r Prawf CAP a dylai fwrw ymlaen fel y byddai'n ei wneud mewn sefyllfa go iawn oni bai y cyfyd problem dechnegol y tu hwnt i reolaeth yr ymgeisydd. Dylai'r ymgeisydd roi gwybod am drafferthion technegol yn y fan a'r lle.

Bydd y Prawf CAP yn dechrau'n brydlon ar yr amser penodedig oni chyfyd amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Gymdeithas. Os na fydd ymgeisydd yn dilyn yr amserlen ar gyfer ei Brawf CAP heb reswm digonol, ni chaiff sefyll y Prawf CAP ac nid ad-delir y ffi.

Clustnodir awr ar gyfer Prawf CAP pob ymgeisydd.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd gyfieithu dau ddarn o natur wrthgyferbyniol ac o ryw 10 munud yr un o hyd. Caiff y darnau eu dethol (drwy gydweithrediad ymysg aseswyr) o amrywiol ffynonellau, ac mae pob un yn realistig ei natur i waith cyfieithydd ar y pryd abl. Mae lefel yr her bob amser yn berthnasol i'r hyn sy'n ofynnol gael aelod CAP cymwysedig. Caiff yr ymgeisydd wybodaeth gefndir gynorthwyol am y darnau hyn i'w darllen cyn dechrau cyfieithu. Bydd y wybodaeth hon yn yr iaith darged. Nid diben y prawf yw baglu neb na'i ddal allan.

Chwaraeir y darnau prawf trwy Zoom. Recordir pob ymgais. Caiff y recordiad ei anfon at yr aseswyr.

Dim ond y peiriannydd sain a'r goruchwyliwr fydd yn gwrando ar yr ymgeisydd yn cyfieithu ar y pryd yn fyw. Bydd modd gwirio ac asesu lefel y sain cyn dechrau cyfieithu.

Os bydd y Gymdeithas yn penderfynu fod yn rhaid rhoi'r gorau i'r Prawf CAP, trefnir cynnal Prawf CAP arall cyn gynted â phosibl. Ni chodir tâl pellach ar ymgeiswyr.

## 3.3 Gofynion technegol y Prawf CAP

Oherwydd y cynhelir y Prawf CAP yn rhithwir gan ddefnyddio Zoom, bydd yn rhaid i bob ymgeisydd fodloni'r gofynion technegol a ganlyn:

- cyflymder cysylltedd â'r we o dros 20mb i lawrlwytho a 10mb i uwchlwytho (Gallwch wirio cyflymder eich cysylltedd â'r we trwy ddilyn y ddolen hon, https://www.speedtest.net.)
- cebl 'ethernet' os nad yw'r cysylltedd wi-fi â'r we yn ddigonol
- camera ar y cyfrifiadur
- penset a meicroffon (ar wahân neu'n rhan o'r un teclyn)
- ystafell dawel lle na fydd na neb na dim yn tarfu ar yr ymgeisydd yn ystod y Prawf CAP
- diffodd unrhyw raglenni neu apiau ar eich peiriant a allai seinio i'r alwad/ recordiad pan fydd neges yn cyrraedd

gwirio ansawdd sain ymlaen llaw drwy recordio pwt ar feddalwedd fel Audacity. Mae'n bwysig diwygio'r gosodiadau sain os oes amheuaeth nad yw'r sain o ansawdd digonol neu addasu lleoliad y meic o'r geg. Mae lefel llais / lleoliad y meic o'r geg yn beth personol iawn, a dyna pam yr awgrymir gwrando'n unigol ymlaen llaw bob tro. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amhariad i'r recordiad yn y prawf.

Yn ddelfrydol dylai'r ymgeisydd sefyll y Prawf CAP mewn lleoliad sy'n gyfarwydd iddo ac un y mae'n CAPio ohono'n arferol ac yn rheolaidd.

Bydd unrhyw ymgeisydd a fydd yn sefyll y Prawf CAP heb gadarnhau ei fod yn bodloni'r gofynion technegol hyn yn **sefyll y Prawf CAP ar ei fenter ei hun**. Os cyfyd trafferthion yn ystod y Prawf CAP oherwydd nad oes ganddo'r offer technegol sy'n angenrheidiol, ni roddir ad- daliad.

Bydd y peiriannydd sain yn gwirio cyflymder cysylltedd â'r we pob ymgeisydd ar ddechrau'r Prawf CAP.

## 3.4 Cyfrinachedd

Gan fod hwn yn brawf proffesiynol, gofynnir i bob ymgeisydd barchu'r angen i bawb sefyll y Prawf CAP dan yr un amodau. Felly dylai ymatal rhag cysylltu ag unrhyw ymgeisydd arall.

## 3.5 Hawliau'r Gymdeithas

Bydd Prawf CAP pob ymgeisydd yn eiddo i'r Gymdeithas. Ceidw'r Gymdeithas yr hawl i ddefnyddio darnau prawf unrhyw ymgeisydd, yn ddienw, at ddibenion hyfforddi.

# 4. Cofrestru a thalu

## 4.1 Y ffurflen gofrestru

Rhaid i bob ymgeisydd lenwi'r ffurflen gofrestru cyn y caiff sefyll Prawf CAP. Rhaid anfon ffurflen gofrestru ar wahân ar gyfer pob unigolyn a fydd yn sefyll Prawf CAP. Mae'r ffurflen gofrestru'n ddogfen ar ei phen ei hun ac nid yw'n rhan o'r llawlyfr hwn.

Dylid e-bostio'r ffurflen gofrestru i swyddfa@cyfieithwyr.cymru ar ffurf 'Word' yn unig, ac nid ar ffurf 'pdf' nac unrhyw fformat arall.

Gofynnir i ymgeiswyr nodi yn ei ffurflen gofrestru unrhyw amgylchiadau a/neu anghenion arbennig sydd ganddo. Ystyrir pob achos yn unigol ac fe wnaiff y Gymdeithas ei gorau glas i ymateb yn gadarnhaol i bob sefyllfa.

## 4.2 Dyddiad cau cofrestru

Cyhoeddir y dyddiad cau i gofrestru ar gyfer Prawf CAP ar ein gwefan, ein gwefannau cymdeithasol a'n bwletin wythnosol. Ni dderbynnir ceisiadau wedi'r dyddiad cau, a hynny er tegwch â phawb.

## 4.3 Y taliadau am sefyll Prawf CAP

I aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau Cydnabyddedig a'r Darpar Aelodau: **£140.00**

I bawb arall: **£170.00**

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

Unigolion: rhaid i chi dalu wrth gofrestru. Ni fyddwn yn cofrestru neb ar gyfer Prawf CAP oni chawn y tâl ar yr un pryd â'r ffurflen gofrestru a chyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru.

Sefydliadau cyhoeddus: ni ddylai ymgeisydd sy'n gweithio mewn sefydliad cyhoeddus ac y bydd ei gyflogwr yn talu am Brawf CAP ddisgwyl cael rhif archeb swyddogol cyn anfon y ffurflen gofrestru. Gall rhif yr archeb ddilyn. Cofrestru sydd bwysicaf.

Os yw rhywun yn sefyll y Prawf CAP i'r Saesneg a'r Prawf CAP i'r Gymraeg ar yr un diwrnod, yna bydd yn sefyll dau Brawf CAP. Bydd gostyngiad o £40 am sefyll y ddau brawf.

## 4.4 Sut i dalu am sefyll Prawf CAP

Mae dwy ffordd o dalu am sefyll Prawf CAP:

### TALIAD ELECTRONIG

Os byddwch chi'n gwneud taliad electronig, rhaid i chi wneud hwnnw'r un pryd ag y byddwch chi'n anfon y ffurflen gofrestru, gan roi 'Prawf CAP' yn gyfeirnod eich taliad. Y wybodaeth angenrheidiol wrth wneud taliad electronig yw:
**Cod didoli:** 40–09–03 (HSBC, Bangor)
**Rhif y cyfrif:** 31670557
**Enw'r Cyfrif:** Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf

**ARCHEB SWYDDOGOL**

Yn achos unigolion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus sydd am i ni anfonebu'r cyflogwr, llenwch y ffurflen gofrestru ac e-bostiwch hi fel atodiad, gan nodi rhif yr archeb a'r cyfeiriad ar gyfer anfonebu os yw'r wybodaeth hon gennych. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael wrth anfon y ffurflen gofrestru, dylid anfon y wybodaeth hon trwy e-bost cyn gynted ag y bydd ar gael.

**Sylwer,** ni ellir talu â cherdyn credyd nac â cherdyn debyd.

## 4.5 Cydnabod derbyn y ffurflen gofrestru

Bydd y Gymdeithas yn cydnabod derbyn pob ffurflen gofrestru, yn ogystal â'r taliad/rhif archeb, drwy e-bost o fewn tri diwrnod gwaith iddi ein cyrraedd ni.

Bydd y Gymdeithas yn gohebu â phob ymgeisydd yn unigol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir yn y ffurflen gofrestru ni waeth pwy sydd yn talu i'r ymgeisydd sefyll y Prawf CAP.

**Sylwer,** cyfrifoldeb pob ymgeisydd yw gwirio fod y Gymdeithas wedi derbyn ei ffurflen gofrestru erbyn 5:00pm ar y dyddiad cau.

## 4.6 Os bydd yn rhaid canslo neu ohirio'r Prawf CAP

Os bydd y Gymdeithas yn gorfod canslo neu ohirio Diwrnod y Prawf CAP, rhoddir dewis i'r ymgeisydd gael ad-daliad llawn neu gredyd.

## 4.7 Os bydd ymgeisydd yn tynnu'n ôl o'r Prawf CAP

Os bydd ymgeisydd yn tynnu'n ôl, rhaid iddo anfon e-bost at swyddfa@cyfieithwyr.cymru yn rhoi gwybod i ni.

Y telerau canslo fydd:
- 7 diwrnod neu ragor cyn Diwrnod y Prawf CAP, ad-delir 75% o'r ffi
- 3–6 diwrnod cyn Diwrnod y Prawf CAP, ad-delir 50% o'r ffi
- llai na thridiau cyn Diwrnod y Prawf CAP, dim ad-daliad

## 4.8 Y pecyn gwybodaeth am y Prawf CAP

Anfonir y pecyn gwybodaeth am y Prawf CAP perthnasol at bob ymgeisydd ddim hwyrach nag wythnos cyn Diwrnod y Prawf CAP. Caiff hwn ei e-bostio i'r cyfeiriad e-bost a nodwyd gan yr ymgeisydd yn ei ffurflen gofrestru.

Dylai ymgeisydd sydd heb gael ei becyn o fewn 5 diwrnod i Ddiwrnod y Prawf CAP gysylltu â'r swyddfa yn syth.

# 5. Trefn y Prawf CAP

## 5.1 Cyn Diwrnod y Prawf CAP

Bydd yr ymgeisydd yn derbyn manylion y prawf o flaen llaw ynghyd â gwybodaeth am amseroedd yr arholiad. Caiff y gwahoddiad Zoom ei anfon at yr ymgeisydd gan CTV Sound Studios, Caerdydd, mewn da o bryd cyn ei Brawf CAP.

## 5.2 Prawf CAP yr ymgeisydd

Os na fydd ymgeisydd wedi ymuno yn y cyfarfod Zoom 15 munud cyn amser dechrau ei Brawf CAP heb reswm digonol a heb gysylltu â'r goruchwyliwr, ni chaiff sefyll y Prawf CAP.

### Rhan 1: croesawu a chyflwyno

Bydd y peiriannydd sain yn gwirio cyflymder cysylltedd â'r we yr ymgeisydd.

### Rhan 2: darllen gwybodaeth am y ddau ddarn

Caiff y wybodaeth hon ei hanfon at yr ymgeisydd gan y goruchwyliwr trwy e-bost pan fydd yr ymgeisydd yn ymuno â'r cyfarfod Zoom.

Caiff yr ymgeisydd 15 munud i ddarllen y wybodaeth am y ddau ddarn. Caiff y wybodaeth ei darparu yn yr iaith darged. Caiff yr ymgeisydd ddefnyddio unrhyw adnoddau perthnasol, er enghraifft geiriaduron, termiaduron, cyfeirlyfrau ac unrhyw gasgliadau geirfa, yn ystod y cyfnod paratoi hwn.

### Rhan 3: gwirio lefelau sain

Cyn y Prawf CAP bydd cyfle i wirio'r lefelau sain o'r ddwy ochr, y peiriannydd sain a'r ymgeisydd. Mae'n bwysig fod yr ymgeisydd yn defnyddio'r cyfnod hwn i wneud yn siŵr ei fod yn gallu clywed y ddau ddarn yn iawn wrth iddo siarad uwchben y gwreiddiol. Felly, os yw'r sain yn rhy isel neu'n rhy uchel, dyma'r amser i gywiro hynny trwy siarad â'r peiriannydd sain fel y gall osod lefel y sain i siwtio'r ymgeisydd. Mae'n bwysig fod yr ymgeisydd yn canolbwyntio ar sicrhau fod lefel y sain yn gywir yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ystod y cyfnod o wirio lefelau'r sain, chwaraeir 30 eiliad yr un o'r ddau ddarn. Gellir ail chwarae'r darnau hyn nes y cytunir bod y lefelau'n gywir.

### Rhan 4: y Prawf CAP ei hun

Yn ystod y Prawf CAP bydd gofyn i'r ymgeisydd fod ar gamera. Weithiau gall defnyddio'r camera effeithio ar gryfder y signal. Os yw diffodd y camera'n gwella'r signal, yna caiff ei ddiffodd wedi i'r technegydd weld wyneb a chlywed llais yr ymgeisydd.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd ddweud ei rif ymgeisydd cyn dechrau cyfieithu'r darn cyntaf ac yna unwaith eto ar derfyn ei gyfieithiad o'r ail ddarn, ar ddiwedd y Prawf CAP. Ni ddylai roi ei enw: caiff pob ymgeisydd ei asesu'n ddienw.

Yn y Prawf CAP bydd ymgeisydd yn cyfieithu dau ddarn o natur wrthgyferbyniol fydd yn para ryw 10 munud yr un.

Bydd saib o funud rhwng y ddau ddarn. Bydd cloc ar y sgrin yn cyfri i lawr o 60 i 0 i ddangos hynny.

Rhaid i'r ymgeisydd roi gwybod i'r peiriannydd sain yn syth os cyfyd unrhyw fath o broblem wrth iddo gyfieithu'r darnau prawf. Os cyfyd unrhyw broblem, cofnodir y manylion gan y peiriannydd sain a'r goruchwyliwr. Rhoddir gwybod i'r aseswyr amdano.

## Rhan 5: cyn gadael

Wedi gorffen cyfieithu bydd cyfle i'r ymgeisydd roi gwybod i'r goruchwyliwr a'r peiriannydd sain am unrhyw fater technegol a gododd ac yr hoffai dynnu sylw'r aseswyr ato. Cofnodir y wybodaeth hon gan y goruchwyliwr.

Sylwer, os na fydd ymgeisydd yn rhoi gwybod am unrhyw broblem dechnegol a gododd wrth iddo gyfieithu naill ai ar lafar cyn gadael y cyfarfod Zoom neu wrth ymateb i'r cynnig i roi sylwadau am y Prawf CAP (gweler 6.1 isod), ni ellir gwarantu yr ystyrir y sylwadau hyn petai'n apelio.

# 6. Beth sy’n digwydd ar ôl Diwrnod y Prawf CAP

## 6.1 Sylwadau am y Prawf CAP

Os oes gan ymgeisydd sylwadau neu gŵyn am y Prawf CAP rhwng Diwrnod y Prawf CAP a chyhoeddi’r canlyniadau, fe ddylai anfon y rhain yn ysgrifenedig i sylw’r Rheolwr Gweinyddol yn unig, ac nid at neb arall.

Anfonir e-bost at ymgeiswyr yn fuan wedi Diwrnod y Prawf CAP yn cynnig y cyfle iddynt wneud sylwadau am y Prawf CAP, gan gynnwys nodi unrhyw anawsterau technegol.

## 6.2 Asesu’r ceisiadau

Mae’r drefn asesu’n un gyfrinachol. Cynhelir unrhyw drafodaeth ar ymgeisydd unigol – p’un ai yw rhwng yr aseswyr â’i gilydd neu yn y Bwrdd CAP – yn ôl y rhif asesu a roddwyd i bob ymgeisydd.

Caiff pob ymgeisydd ei asesu’n ddienw gan ddau asesydd sy’n aelodau o Gofrestr Aseswyr CAP y Gymdeithas, mewn ymgynghoriad â’r Dirprwy Arholwr CAP, ac yn unol â chanllawiau asesu’r Gymdeithas.

## 6.3 Cyhoeddi’r canlyniadau

Caiff pob ymgeisydd wybod ei ganlyniad yn ysgrifenedig yn unig tua wyth wythnos wedi Diwrnod y Prawf CAP. Rhoddir gwybodaeth fanylach ynghylch y dyddiad yn y neges a gaiff ei hanfon wedi Diwrnod y Prawf CAP (gweler 6.1 uchod). Ni fydd modd i’r un ymgeisydd gael ei ganlyniad cyn diwrnod y cyhoeddiad swyddogol.

Bydd y Gymdeithas yn gohebu â phob ymgeisydd gan ddefnyddio’r manylion cyswllt a roddir yn y ffurflen gofrestru. Gellir newid y manylion cyswllt ar unrhyw adeg trwy roi gwybod i’r Rheolwr Gweinyddol.

Bydd y dyfarniad yn cynnwys y graddau y mae’r ymgeisydd wedi’u cael ym mhob un o’r meini prawf yn y ddau ddarn prawf, a sylw cryno am ei ymgais. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn cael copi o’i ymgais yn y Prawf CAP (y ffeil sain).

Anfonir yr Adroddiad Cyffredinol ar y Prawf CAP at bob ymgeisydd wythnos wedi cyhoeddi’r canlyniadau.

## 6.4 Cael adroddiad unigol ar Brawf CAP

Gall unrhyw ymgeisydd, p’un a yw wedi llwyddo neu fethu, ofyn am adroddiad unigol ar ei ymgais yn y Prawf CAP. Bydd y sylwadau yn yr adroddiad unigol yn ymhelaethu ar y sylw cryno a roddwyd yn y pecyn dyfarniad, cyn symud ymlaen i drafod y darnau yn nhermau cyfieithu llwyddiannus ac aflwyddiannus. Amlygir unrhyw bwyntiau y teimlir eu bod yn peri trafferth.

I gael adroddiad unigol, rhaid anfon y cais yn unol â’r amserlen a nodir yn y pecyn dyfarniad.

Gweler hefyd pwynt 6.6 isod.

#### 6.4.1 Taliadau am adroddiad unigol

I aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y sefydliadau a gaiff eu cydnabod, a'r Darpar Aelodau: **£40.00**

I ymgeiswyr llwyddiannus: **£40.00**

I bawb arall: **£45.00**

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

Mae'r wybodaeth ynghylch sut i dalu yn 4.4. uchod.

### 6.5 Apelio

Os bydd ymgeisydd yn penderfynu apelio, argymhellwn yn gryf y dylai, yn gyntaf, wneud cais am adroddiad unigol oherwydd y byddai hynny'n rhoi darlun cliriach o'r gwaith yn ei gyfanrwydd.

Wrth apelio yn erbyn dyfarniad dylid cofio hefyd y caiff yr ymgais ei hasesu o'r newydd gan asesydd nad yw wedi bod yn gysylltiedig cyn hyn. Felly, wrth ystyried apêl gellid dod i'r casgliad bod y dyfarniad gwreiddiol yn rhy hael neu'n rhy llym.

Er gwybodaeth, mae rhai apeliadau wedi llwyddo ac eraill wedi methu.

#### 6.5.1 Cyflwyno apêl

Gall ymgeisydd gyflwyno apêl yn erbyn dyfarniad y Bwrdd CAP drwy roi gwybod i'r Rheolwr Gweinyddol o'i fwriad i wneud hynny yn unol â'r amserlen a nodir yn y pecyn dyfarniad. Wrth wneud hynny, bydd cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno ei resymau dros apelio yn erbyn y dyfarniad os dymuna, ond nid yw'n ofynnol.

Caiff y dyddiad cau i gyflwyno apêl ei nodi yn y pecyn canlyniad.

Gweler hefyd pwynt 6.6 isod.

#### 6.5.2 Taliadau ar gyfer cyflwyno apêl

I aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y sefydliadau a gaiff eu cydnabod, a'r Darpar Aelodau: **£60.00**

I bawb arall: **£65.00**

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

Mae'r wybodaeth ynghylch sut i dalu yn 4.4 uchod.

Ad-delir y taliad os caniateir yr apêl.

#### 6.5.3 Ymdrin ag apêl

Caiff apêl ei hystyried gan y Prif Arholwr CAP. Bydd ei ddyfarniad yn derfynol. Fe gymer y broses o ystyried apêl hyd at fis. Hysbysir yr ymgeisydd o ganlyniad yr apêl gan y Rheolwr Gweinyddol.

## 6.6 Canllawiau i ymgeiswyr ynghylch cael adroddiad unigol ac apelio

Un o brif nodau Bwrdd CAP y Gymdeithas yw sicrhau chwarae teg i bawb sy'n sefyll profion CAP y Gymdeithas. Mae'r drefn asesu bresennol wedi'i strwythuro er mwyn sicrhau bod pob ymgais yn cael ei hasesu'n annibynnol gan ddau asesydd sy'n gyfieithwyr ar y pryd profiadol ac yn aelodau CAP o'r Gymdeithas. Mae'r ddau ddarn yn cael eu dadansoddi'n fanwl o ran yr amrywiol elfennau a nodir yn y canllawiau asesu.

O dan amodau prawf, derbynnir y gall rhai llithriadau annodweddiadol ddigwydd ac o ganlyniad, mae ambell ymgais yn syrthio i'r categori 'ffiniol' ym mhob rownd o brofion. Mae pob ymgais o blith y rhain yn cael ei chyfeirio gan yr aseswyr at y Dirprwy Arholwr CAP. Gwrandewir ar y ceisiadau hyn yn astud ac, yn dilyn trafodaeth fanwl yn y Bwrdd CAP, penderfynir a yw'r ymgeiswyr dan sylw yn llwyddo neu beidio. (Noder nad yw'n mynd yn erbyn yr ymgeisydd os yw'n cywiro'i hun (yn ramadegol daclus) wrth sylweddoli bod llithriad wedi digwydd yn ystod y prawf. Cyfleu cyflawnder y gwreiddiol sy'n bwysig yn nhyb yr aseswyr.)

Wrth asesu, defnyddir graddfa o 1 i 5 ar gyfer pob elfen yn y canllawiau asesu, gydag 1 yn cyfateb i 'Gwan iawn' a 5 yn cyfateb i 'Da iawn'. Er mwyn llwyddo yn y ddau ddarn, mae'n rhaid cael isafswm o 3 marc ('Derbyniol') ym mhob categori. O gofio hyn, anogir ymgeiswyr sy'n gwneud cais am adroddiad unigol i fanteisio ar yr adroddiadau hynny fel adborth adeiladol, ac i beidio â rhagdybio, oherwydd bod elfen wedi cael gradd gyfystyr â llwyddo gan yr aseswyr, fod y gwaith yn gwbl ddi-fai o ran yr elfen honno. Fel y nodwyd uchod, mae'n bosibl y bydd yr aseswyr wedi maddau ambell lithriad, ond byddent yn sicr o gyfeirio at hynny yn yr adroddiad unigol. Byddai hefyd yn fuddiol i ymgeiswyr wrando ar y recordiad o'u hymgais (a gaiff ei anfon fel rhan o'r pecyn canlyniad).

Pan fydd ymgeiswyr yn cyflwyno apêl yn erbyn dyfarniad, felly, dylent gadw'r ffeithiau a nodwyd uchod mewn cof, a byddwn yn argymell yn gryf y dylent wneud cais am adroddiad unigol ar eu hymgais cyn penderfynu a ydynt am apelio. Cafwyd enghreifftiau yn y gorffennol o ymgeiswyr yn apelio ar ôl derbyn canlyniad lle nad oedd ond un elfen yn llithro o dan y radd angenrheidiol i lwyddo, ond gan nad oeddent wedi gofyn am adroddiad unigol ar eu gwaith yn gyntaf, nid oeddent wedi sylweddoli bod ambell radd arall a gawsant yn eithaf hael. Dim ond hyn a hyn o fân lithriadau y gellir eu caniatáu, hyd yn oed o dan amodau'r Prawf CAP.

Os penderfynir apelio yn erbyn dyfarniad, dylid cofio bod yr ymgais yn cael ei hasesu o'r newydd, ac felly y gellid dod i'r casgliad bod y graddau gwreiddiol yn rhy hael neu'n rhy llym. Nid oes rhaid dadlau yn erbyn unrhyw elfennau penodol yn yr adroddiad wrth apelio, ond yn amlwg byddai o fudd cyfeirio at unrhyw elfennau a allai, ym marn yr ymgeisydd, fod wedi peri i'r perfformiad lithro o dan y safon ofynnol.

# 7. Canllawiau asesu Prawf CAP

## Asesu Prawf CAP

Wrth asesu pob ymgais, bydd yr aseswyr yn:

- penderfynu ar un marc ar gyfer y 5 maen prawf
- llunio sylw cryno am yr ymgais

## Y 5 maen prawf a'r marciau

Wrth asesu cyfieithiadau bydd yr aseswyr yn rhoi marc o 5 i 1 ar gyfer yr agweddau a ganlyn:

- Geirfa gyffredinol
- Geirfa dechnegol
- Deall, dehongli a chywirdeb
- Cystrawen, cywair ac idiom
- Arddull a chyflwyniad technegol

Bydd y marciau o 5 i 1 yn cyfateb i:

5 = Da iawn
4 = Da
3 = Derbyniol
2 = Gwan
1 = Gwan iawn

Rhaid cael marc o 3 neu uwch ym mhob un o'r pum categori er mwyn llwyddo.

## Y cryfderau a gwendidau a ystyrir wrth asesu

### CRYFDERAU

**Geirfa gyffredinol**
Dim oedi gyda geiriau cyfarwydd annhechnegol.

**Geirfa dechnegol**
Yn defnyddio'r un termau ag y byddai arbenigwr a phobl gyfarwydd â'r maes gan gynnwys y jargon perthnasol; dim oedi nac ymbalfalu am dermau technegol.

**Deall, dehongli a chywirdeb**
Yn gyfarwydd ac yn/neu'n hyderus â maes y drafodaeth, ac yn cyfleu cynnwys y drafodaeth yn gywir.

### GWENDIDAU

**Geirfa gyffredinol**
Yn petruso wrth gyfieithu geiriau cyffredin ac annhechnegol.

**Geirfa dechnegol**
Yn defnyddio termau na chânt eu harfer gan arbenigwyr ac eraill cyfarwydd â'r maes; yn ansicr wrth gyfieithu termau technegol.

**Deall, dehongli a chywirdeb**
Yn anghyfarwydd â maes y drafodaeth ac yn ansicr o'r herwydd. Yn gadael bylchau ar adegau; yn cyfleu cyfran sylweddol o gynnwys y drafodaeth yn anghywir neu mewn modd camarweiniol.

**Cystrawen, cywair ac idiom**
Yn defnyddio: cystrawen hollol briodol gyda'r cymalau'n cydlynu ac yn rhedeg yn naturiol; geiriau ac ymadroddion priodol eu cywair yn gyson; yn trosi priod-ddulliau i rai sy'n naturiol yn yr iaith darged.

**Arddull a chyflwyniad technegol**
Llais meicroffon dymunol, heb synau diangen megis peswch, ebychiadau llanw, na sŵn cymryd gwynt. Y cyfieithiad yn llifo yn ôl y galw gan adlewyrchu cywair llais y gwreiddiol, heb fylchau o ddistawrwydd amlwg. Tôn amrywiol. Yn medru parhau i gyfieithu drwy gydol y Prawf CAP gan gynnal cyflymdra'r gwreiddiol, heb ddangos arwyddion blinder a cholli hyder.

**Cystrawen, cywair ac idiom**
Cystrawennu a chydlynu gwan; diffyg rhediad naturiol. Yn defnyddio geiriau ac ymadroddion amhriodol eu cywair yn aml; yn trosi priod-ddulliau'n llythrennol neu gan ddefnyddio ymadroddion sy'n anidiomatig yn yr iaith darged.

**Arddull a chyflwyniad technegol**
Diffyg cynhesrwydd o ran lleisio, peswch, ebychiadau llanw, sŵn cymryd gwynt, gweiddi gormod/siarad yn rhy dawel, anadlu nerfus neu swnllyd. Yn cyfieithu mewn hyrddiau anwastad, heb fod yn adlewyrchu cywair llais y gwreiddiol drwy gydol y perfformiad. Tôn undonog. Y perfformiad yn dirywio ac/neu'n arafu'n ormodol wrth i'r sesiwn fynd yn ei blaen oherwydd blinder, neu golli'r gallu i ganolbwyntio a dyfalbarhau.

# 8. Aelodaeth o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru

## Buddion aelodaeth

Cynigir nifer o fuddion a gwasanaethau i aelodau'r Gymdeithas, yn eu plith:

- Tystysgrif Aelodaeth
- Llawlyfr Aelodaeth
- Enw a gwybodaeth ar wefan y Gymdeithas: cofnod aelodaeth a phroffil
- Bwletin newyddion misol ynghyd â bwletin yn nodi swyddi a thendrau sydd ar gael
- Prisiau arbennig ar gyfer gweithdai a digwyddiadau'r Gymdeithas
- Yr hawl i Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP ddefnyddio logo arbennig
- Mantais wrth dendro am gontractau yn y sector cyhoeddus lle gofynnir am aelodaeth gydnabyddedig

## Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP)

Anogir holl aelodau'r Gymdeithas i roi sylw ac amser i'w datblygiad proffesiynol. Cynigir arweiniad a chyfarwyddyd yng nghynllun DPP y Gymdeithas, 'Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision', y ceir copi ohono ar wefan y Gymdeithas, https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/datblygu-proffesiynol/cynllun-datblygu-proffesiynol

## Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth mae holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod bod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol, y ceir copi ohono ar wefan y Gymdeithas, https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/dod-o-hyd-i-gyfieithydd/ymddygiad-proffesiynol-1

## Y tâl aelodaeth

Mae'r tâl aelodaeth blynyddol yn **£150.00** i bob aelod, ac eithrio Aelodau Sylfaenol yn nhair blynedd cynta'u haelodaeth a fydd yn talu **£140.00**

Bydd aelodau newydd a fydd yn ymuno â'r Gymdeithas am y tro cyntaf yn talu tâl aelodaeth arbennig yn y flwyddyn y maent yn llwyddo yn y drefn arholi. Mae'r tâl hwnnw'n dibynnu ar y dyddiad y gwnaethant lwyddo.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Yn ystod Ebrill a Mai bob blwyddyn gweithredir trefn gadarn ar gyfer atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu'u tâl aelodaeth. O ganlyniad, dim ond enwau aelodau sydd wedi talu'u tâl aelodaeth am y flwyddyn sydd ar wefan y Gymdeithas.